**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANFAIR A GYNHALIWYD YN RHYTHIOL DROS ZOOM AM 7.30 O'R GLOCH 14.1.21**

**YMDDIHEURIADAU**
Cyng. Gerallt Jones.

**PRESENNOL**
Cyng. Eurig Hughes (Cadeirydd), Russell Sharp (Is-Gadeirydd), Robert G. Owen, Mair Thomas, Dylan Hughes, David J. Roberts.

**COFNODION**
Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Medi 12ed 2020 fel rhai cywir.

**MATERION YN CODI**
**Cynllun Cyllideb**
Dosbarthwyd copiau o'r uchod I bob Aelod oedd yn bresennol yn dangos y gwahaniaethau yn y gwariant a oedd wedi cael ei wneud i fyny hyd at y 31ain o Ragfyr 2020 ers dechrau Ebrill 2020 a beth oedd wedi cael ei glustnodi yn y cynllun cyllideb hyd at diwedd mis Rhagfyr i bob aelod oedd yn bresennol. Adroddwyd bod £17,017.48 wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd a bod hyn yn £5,408.00 o wariant yn llai na oedd wedi cael ei glustnodi yn y gyllideb am y flwyddyn.

**Cyllideb y Cyngor am 2021/22**
Dosbarthwyd copiau o'r uchod I bob Aelod oedd yn bresennol yn dangos cyfrifon y Cyngor i fyny at y 31ain o Ragfyr 2020 i bob aelod er mwyn iddynt gael gweld beth oedd y sefyllfa ariannol. Amcangyfrif o'r gwariant canlynol gan y Cyngor am y flwyddyn ariannol nesa - insiwrant y Cyngor £450, cyflog y Clerc £1,520, costau y Clerc £300, treth ar gyflog y Clerc £380, Cyfrifydd y Clerc £192, cyfraniadau £1,000, Hamdden Harlech ac Ardudwy £8,306.86, pwyllgor neuadd Goffa £1,000, costau fynwent £1,500, torri gwair y mynwentydd £2,000, torri gwair y llwybrau £1,200, Dwr Cymru £40, biniau halen £300, cyfraniad i gadw toiledau cyhoeddus Llandanwg yn agored £4,000, Un Llais Cymru £100, llogi ystafell bwyllgor £150, archwilwyr £600, amrywiol £1,000, cynnal a chadw gwahanol eitemau £1,200,

**Precept y Cyngor am y flwyddyn 2021/22**
Fe dderbyniwyd llythyr gan Gyngor Gwynedd ynglyn ar mater uchod. Wrth edrych ar y gyllideb a rhagweld beth fyddai gwariant y Cyngor am y flwyddyn ariannol nesa, cytunwyd I adael y precept ar £16,000.

**Polisi Asesiad Risg y Cyngor**
Dosbarthwyd copiau o'r uchod i bob aelod a oedd yn bresennol a gafodd bob eitem a oedd arno ei drafod arwahan. Penderfynwyd derbyn y polisi hwn.

**Panel Cyfrifiad Annibynnol**
Adroddodd y Clerc bod yn rhaid arwyddo ffurflen gan bob Cynghorydd ynglyn ar uchod eto eleni. Mae angen rhestru bob rheol sydd yn cael ei mabwysiadu yn cofnodion y Cyngor ag os bydd rheol taliadau ar gyfer costau yn cael ei mabwysiadu bydd angen i'r Cynghorwyr sydd DDIM am hawlio costau arwyddo ffurflen yn datgan hyn. Ar ol trafodaeth cytunwyd i fabwysiadu y rheol taliadau ar gyfer costau eto eleni a cytunwyd bod pawb oedd eisiau hawlio costau yn gwneud hynny ond ei fod yn bwysig bod pawb yn ei anfon yn nol i'r Clerc ar ol ei cwblhau.

**CEISIADAU CYNLLUNIO**
**Dymchwel adeilad tô gwastad presenol a codi estyniad newydd tô brig (Cais diwygiedig) - Rhiw Goch Bach, Harlech (NP5/66/266B)**
Cefnogi y cais cynllunio isod oherwydd ei fod yn galluogi o gwpwl ifanc aros yn yr ardal.

**Codi garej ddwbl ar wahan Maes Annedd, Llandanwg (NP5/66/82A)**
Cefnogi y cais hwn

424……………………………………Cadeirydd

**Dymchwel y garej presennol ac adeiladu garej pren/ storfa 8.70m x 5.50m - Pennant, Llandanwg (NP5/66/236A)**
Wedi derbyn y cais cynllunio uchod drwy e-bost y prynhawn ddoe a nid yw y cynlluniau ar wefan y Parc Cenedlaethol eto. Mi anfonaf y cais ymlaen i chi gyd ar ol ei dderbyn er mwyn i chi gael rhoi sylwadau arno.

**ADRODDIAD Y TRYSORYDD**
Adroddodd y Trysorydd bod £5,062.83 yn y cyfrif rhedegol, a £5,521.14 yn y cyfrif cadw.

**Taliadau ers y cyfarfod diwethaf**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyllid a Thollad | - | £95.00 - | treth cyflog y Clerc |
| Mrs Wendon Wigglesworth | - | £35.00 - | sticer bin brown y fynwent |
| Archwilio Cymru | - | £275.65 - | archwiliad allanol 2019/20 |
| Dwr Cymru | - | £9.22 - | tap y fynwent |

**Derbyniadau ers y cyfarfod diwethaf**
Mr. M. Downey - £40.00 - rhent cwt yr hers (Ionawr)

Adroddodd y Trysorydd bod y Cyngor wedi dan wario £5,408.00 ers cychwyn y flwyddyn ariannol hon hyd at y 31ain o Ragfyr 2020 ag ei bod yn rhagweld byddai £9,369.10 yn cael ei gario drosodd ar y 31ain o Fawrth 2021. Rhaid cofio hefyd bydd o leiaf £2.094.87 o wariant angen ei wneud erbyn diwedd Mawrth 2021 a ddim ond £880.00 i ddod i mewn (ar hyn o byrd) ag byddai gan y Cyngor wariant sylweddol i'w wneud yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf 2021/22 oherwydd bod £8,306.86 wedi cael ei glustnodi ar gyfer Hamdden Harlech ac Ardudwy a £4,000 wedi cael ei glustnodi i Gyngor Gwynedd fel cyfraniad y Cyngor i gadw y toiledau cyhoeddus yn Llandanwg yn agored sydd yn gwneud cyfanswm o £12,306.86 heb gynnwys ddim gwariant arall fyddai y Cyngor yn ei wneud. Felly wrth gofio y byddai hwyrach £9,369.10 yn cael ei gario drosodd a bod y precept yn aros ar £16,000 (£9,369.10 + £16,000 = £25,369.10 - £12,306.86 = £13,062.24) hwyrach bydd y Cyngor yn iawn gyda'i gwariant am y flwyddyn ariannol 2021/22. Bydd yr Aelodau yn gallu gweld y rhagolygon ariannol am y flwyddyn i ddod yn well diwedd Mawrth 2021. Hefyd rhaid cofio bod y flwyddyn diwethaf wedi bod yn wahanol iawn a ddim gymaint o wariant ag arfer wedi cael ei wneud.

Adroddodd y Trysorydd ymhellach ei bod wedi derbyn adroddiad yr archwiliad allanol gan cwmni BDO. 'Roedd pob dim yn iawn arwahan bod y Cyngor heb wedi caniatáu mynediad ar ei wefan at gofnodion cyfarfodydd y Cyngor o flynyddoedd blaenorol ag eu bod yn argymhelliad dylai'r Cyngor sicrhau bod cofnodion y blynyddoedd blaenorol ar gael yn electronig yn unol â'r ddeddfwriaeth. Adroddodd y Trysorydd ei bod wedi trafod hyn gyda gweinyddwr y wefan a bydd cofnodion bob cyfarfod yn cael ei roi ar y wefan o hyn ymlaen.

**GOHEBIAETH**
**Llywodraeth Cymru**
Wedi derbyn llythyr gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor mae y swm priodol o dan Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, Gwariant Adran 137 y Terfyn ar gyfer 2021/22 fydd £8.41 yr etholwr. Adroddodd y Clerc y rhif o diweddaraf o etholwyr sydd genni yw 328 ag felly mae gan y Cyngor hawl i gyfranu hyd at £2,758.48 i gyrff allanol.

**Radio Ysbyty Gwynedd**
Wedi derbyn llythyr gan yr uchod ynghyd a matolen ariannol yn gofyn am gymorth ariannol tuag at gynnal a rhedeg y radio uchod. Cytunwyd i'w gadael tan fydd ceisiadau ariannol yn cael eu trafod yn mis Mawrth.

**CFFI Meirionnydd**
Wedi derbyn llythyr gan yr uchod ynghyd a matolen ariannol yn gofyn am gymorth ariannol tuag at gynnal a rhedeg y Mudiad yma yn Meirionnydd. Cytunwyd i'w gadael tan fydd ceisiadau ariannol yn cael eu trafod yn mis Mawrth.

**Dyddiad Cyfarfod Nesa**
**Penderfynwyd cynnal cyfarfod nesa y Cyngor cyn gynted a fydd yn bosib cael gwneud**

**ARWYDDWYD........................................................**Cadeirydd

**DYDDIAD.................................................................**